**Dyddiad:** Dydd Mercher 17 Ebrill

**Amser:** 2.00pm hyd 5.20pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad

# ADOLYGIAD Y PWYLLGOR O BOLISI FFERMIO ORGANIG

## Diben

1. Ystyried y cylch gorchwyl drafft a'r dull a awgrymwyd ar gyfer cynnal adolygiad arfaethedig y Pwyllgor o bolisi ffermio organig.

## Cefndir

2. Fel rhan o'i raglen waith am y flwyddyn sydd i ddod, mae'r Pwyllgor yn dymuno cynnal adolygiad o ffermio organig yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn nodi cylch gorchwyl drafft yr ymchwiliad a rhaglen bosibl.

## Cylch gorchwyl drafft

3. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo'r cylch gorchwyl drafft a ddilyn:

*Asesu rhagolygon ffermio organig yng Nghymru ar gyfer y dyfodol, ystyried a oes modd cyflawni targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru a gweld beth yw'r goblygiadau i bolisi ac i'r gyllideb amaethyddiaeth a datblygu cefn gwlad o ran dyrannu adnoddau.*

## Y camau nesaf

4. Rhoddir gwahoddiad ar unwaith i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig erbyn diwedd mis Mai, ar yr amod bod y cylch gorchwyl yn cael ei gymeradwyo.

   Caiff rhestr o gysylltiadau arfaethedig ei pharatoi gan yr Ysgrifenyddiaeth a chaiff ei dosbarthu i'r Pwyllgor am sylwadau.

   Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, bydd cyrff allweddol yn cael gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor, sef:

- Grwp Strategaeth Organig y Partneriaeth Bwyd-amaeth
- Cymdeithas y Pridd
- Undebau Ffermio
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Y Gymdeithas Gwarchod Cnydau
- Cynrychiolwyr o sector yr archfarchnadoedd

5. Gwahoddir cyflwyniadau llafar ychwanegol fel y gwêl y Pwyllgor yn briodol ar sail yr ymatebion ysgrifenedig a ddaw i law.

6. Er mwyn llywio'r adolygiad ymhellach, cynigir bod y Pwyllgor yn ymweld â:

Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd, Aberystwyth

**Mae'r Sefydliad yn cynnal gwaith ymchwil i systemau cynhyrchu bwyd cynaliadwy a ffyrdd o leihau'r mewnbynnau amaethyddiaeth drwy ddatblygu dulliau bridio a rheoli gwell. Mae llawer o'r ymchwil yn berthnasol i waith y Pwyllgor.**

Rachel's Organic Dairy, Borth

Fferm deuluol oedd Rachel's Organic Dairy yn wreiddiol, a dyma oedd fferm organig ardystiedig gyntaf y DU. Byddai ymweld â'r fferm yn rhoi cyfle i edrych ar rai o oblygiadau ymarferol cynhyrchu a phrosesu bwyd organig.

7. Cysylltwyd â'r Aelodau eisoes i weld a fyddent ar gael i ymweld â'r mannau hyn ar ddydd Gwener 10 Mai.

**Camau i'r Pwyllgor eu gweithredu**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau a chytuno ar y cylch gorchwyl drafft a nodir ym mharagraff 3, a'r camau a ddilyn a nodwyd ym mharagraffau 4 i 6. Hefyd, gofynnir i'r Aelodau enwi unrhyw unigolion neu gyrff eraill y maent o'r farn y dylid eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth, ac i nodi materion penodol y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod yr ymchwiliad fel y gall yr Ysgrifenyddiaeth addasu'r rhaglen yn unol â hyn.

-

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Ebrill 2002**

**Atodiad 1**

**ADOLYGIAD O BOLISI FFERMIO ORGANIG**

**AMSERLEN FRAS**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher 17 Ebrill | Cytuno ar y cylch gorchwyl, Cyhoeddi’r llythyr ymgynghori |
| Dydd Mercher 1 Mai | Sesiwn ymgynghori llafar gyda Grwp Strategaeth Organig y Partneriaeth Bwyd-amaeth |
| Dydd Gwener 10 Mai | Ymweliadau - Sefydliad Ymchwil Tir Glas a’r Amgylchedd, Rachel's Organic Dairy |
| Dydd Mercher 15 Mai | Sesiwn ymgynghori llafar |
| Dydd Mercher 29 Mai | Sesiwn ymgynghori llafar |
| Dydd Mercher 19 Mehefin | Sesiwn ymgynghori llafar |
| Dydd Mercher 3 Gorffennaf | Ystyried materion sy’n dod i’r amlwg |
| Dydd Iau 11 Gorffennaf | Slot ychwanegol posibl ar gyfer gweithgareddau’r Pwyllgor |
| Dydd Mercher 17 Gorffennaf | Ystyried argymhellion drafft |
| Cyfarfod cyntaf Tymor yr Hydref | Ystyried drafft cyntaf yr adroddiad |
| Ail gyfarfod Tymor yr Hydref | Y Pwyllgor yn cymeradwyo’r adroddiad drafft |